**COVID & YOUNG PEOPLE**
**GDPR STATEMENT**

We want to tell you what we will do your information. There are rules of what we can do with information, and these are called the General Data Protection Regulations (GDPR) and the UK Data Protection Act 2018. We will follow these rules.

**Your Information**

The information you give us is kept in Swansea University.

**Who's in charge of the information?**

Swansea University is the Data Controller and is committed to protecting the rights of individuals in line with the Data Protection Act 2018 and the General Data Protection Regulation (GDPR).

**Contact details of the Data Protection Officer**

Swansea University has a Data Protection Officer whose job it is to make sure we do not break the rules of the GDPR. If you would like to contact the Data Protection Officer their email is: dataprotection@swansea.ac.uk.

**What information do we collect about you?**

The University is required to collect the following information in order to understand how COVID-19 is affecting your health and wellbeing. We will ask you questions in the survey about how you feel about your health and wellbeing for example, "On a scale of 1 – 10, how much has COVID impacted your education?". We want to understand how returning to school/sixth form/college and university has been too.

**How will your information be used?**

The information you provide will be used by the University to show that you have agreed to do the survey. For example, we will hold your address and we will also use your postcode to see how the place you live makes you more or less healthy. For example, if some areas have more places to be active, are young people healthier in those areas?

**What is our legal basis for using your information?**

We are using this information about you because of 'public task'. This means to understand what would make things better for young people living in Wales. We are also allowed to hold the information you provide to us about how you feel about your health and happiness because it will help us with our research in understanding if being healthy and happy is

because of where you live or if it has an effect on how well you do in school/college/university.

**Who looks at your information?**

Information about you will be shared with only named researchers involved in this project. We do not give your information to anyone else. Only the researchers will be able to see your information.

**How long will your information be held?**

We will hold your data for 10 years. This is so we can repeat our analysis to make sure we are correct. Once 10 years is up, we will destroy your data.

**What are your rights?**

You have lots of rights when it comes to information we hold about you. You have a right to access your personal information, to object to the processing of your information, to rectify, to erase, and to restrict your personal information.

Please visit the University Data Protection webpages for further information in relation to your rights:

https://www.swansea.ac.uk/about-us/compliance/data-protection/your-rights/

or contact the Data Protection Officer in Swansea University:

University Compliance Officer (FOI/DP)
Vice Chancellor's Office
Swansea University
Singleton Park
Swansea
SA2 8PP
Email: dataprotection@swansea.ac.uk

If you are not happy with how we look after your information, then you can contact the Information Commissioner's Office (ICO) who will be able to help you. The Information Commissioner can be contacted at:

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,

Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk

**COVID A PHOBL IFANC**
**DATGANIAD GDPR**

Rydym ni eisiau dweud wrthych beth fyddwn ni'n ei wneud â'ch gwybodaeth. Mae rheolau ynglŷn â beth gallwn ni ei wneud â gwybodaeth, a'r enw am y rhain yw'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data y DU 2018. Byddwn yn dilyn y rheolau hyn.

**Eich Gwybodaeth**

Cedwir y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni ym Mhrifysgol Abertawe.

**Pwy sydd â gofal am y wybodaeth?**

Prifysgol Abertawe yw'r Rheolydd Data, ac mae wedi ymrwymo i amddiffyn hawliau unigolion yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

**Manylion cyswllt y Swyddog Diogelu Data**

Mae gan Brifysgol Abertawe Swyddog Diogelu Data, a'i swydd yw gwneud yn siŵr nad ydym ni'n torri rheolau'r GDPR. Os hoffech chi gysylltu â'r Swyddog Diogelu Data, y cyfeiriad e-bost yw: dataprotection@swansea.ac.uk.

**Pa wybodaeth ydym ni'n ei chasglu amdanoch chi?**

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gasglu'r wybodaeth ganlynol er mwyn deall sut mae COVID-19 yn effeithio ar eich iechyd a'ch lles. Byddwn yn gofyn cwestiynau i chi yn yr arolwg am sut rydych chi'n teimlo am eich iechyd a'ch lles, er enghraifft, "Ar raddfa o 1 – 10, faint mae COVID wedi effeithio ar eich addysg?". Rydym ni eisiau deall sut brofiad fu dychwelyd i'r ysgol / chweched dosbarth / coleg a'r brifysgol hefyd.

**Sut bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio?**

Bydd y wybodaeth rydych chi'n ei darparu yn cael ei defnyddio gan y Brifysgol i ddangos eich bod wedi cytuno i wneud yr arolwg. Er enghraifft, byddwn yn dal eich cyfeiriad, a byddwn hefyd yn defnyddio'ch cod post i weld sut mae ble rydych chi'n byw yn eich gwneud yn fwy neu'n llai iach. Er enghraifft, a oes gan rai ardaloedd fwy o leoedd i fod yn egnïol, a yw pobl ifanc yn iachach yn yr ardaloedd hynny?

**Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio'ch gwybodaeth?**

Rydym ni'n defnyddio'r wybodaeth hon amdanoch oherwydd 'tasg gyhoeddus'. Mae hyn yn golygu deall beth fyddai'n gwneud pethau'n well i bobl ifanc sy'n byw yng Nghymru. Caniateir i ni hefyd ddal y wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni ynglŷn â sut rydych chi'n teimlo am eich iechyd a'ch hapusrwydd, gan y bydd yn ein helpu â'n hymchwil i ddeall a yw bod yn iach a hapus yn ymwneud â ble rydych chi'n byw neu a yw'n cael effaith ar ba mor dda rydych chi'n gwneud yn yr ysgol / y coleg / y brifysgol.

**Pwy sy'n edrych ar eich gwybodaeth?**

Bydd gwybodaeth amdanoch chi dim ond yn cael ei rhannu ag ymchwilwyr a enwyd sy'n gysylltiedig â'r prosiect hwn. Nid ydym yn rhoi eich gwybodaeth i unrhyw un arall. Dim ond yr ymchwilwyr fydd yn gallu gweld eich gwybodaeth.

**Am ba mor hir fydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw?**

Byddwn ni'n dal eich data am 10 mlynedd, er mwyn i ni allu ailadrodd ein dadansoddiad i wneud yn siŵr ein bod yn gywir. Pan fydd y 10 mlynedd ar ben, byddwn yn difrodi'ch data.

**Beth yw eich hawliau?**

Mae gennych chi lawer o hawliau o ran gwybodaeth rydym ni'n ei dal amdanoch chi. Mae gennych chi hawl i gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol, gwrthwynebu prosesu'ch gwybodaeth, cywiro, dileu, a chyfyngu eich gwybodaeth bersonol.

Ewch i dudalennau we'r Brifysgol am Ddiogelu Data i gael rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'ch hawliau:

https://www.swansea.ac.uk/about-us/compliance/data-protection/your-rights/

neu cysylltwch â'r Swyddog Diogelu Data ym Mhrifysgol Abertawe:

Swyddog Cydymffurfio'r Brifysgol (Rhyddid Gwybodaeth / Diogelu Data)
Swyddfa'r Is-Ganghellor
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
Abertawe
SA2 8PP
E-bost: dataprotection@swansea.ac.uk

Os nad ydych yn hapus â'r ffordd rydym ni'n gofalu am eich gwybodaeth, yna gallwch chi gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO), a fydd yn gallu'ch helpu chi. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad isod:

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF
www.ico.org.uk